# Agenda - Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda via Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 12 Tachwedd 2020

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Alun Davidson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddMADY@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.**

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

**Cyfnod cofrestru**

(13.30-14.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.00)

## 2 Bil Marchnad Fewnol y DU: Yr Arglwydd True, Gweinidog Gwladol yn Swyddfa'r Cabinet

(14.00-15.00) (Tudalennau 1 - 50)

## 3 Papurau i'w nodi

(15.00-15.05)

**3.1 Papur i'w nodi 1: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Bil Masnach**

(Tudalennau 51 - 54)

**3.2 Papur i'w nodi 2: Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd at y Cadeirydd ynghylch Cytundeb Partneriaeth Economaidd Cynhwysfawr y DU a Japan - 9 Tachwedd 2020**

(Tudalen 55)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

3.3 Papur i'w nodi 3: Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg at y Cadeirydd ynghylch y Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar Gyfansoddiad a Safonau Labelu Maeth - 9 Tachwedd 2020

(Tudalennau 56 - 64)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(15.05)

## 5 Bil Marchnad Fewnol y DU: Yr Arglwydd True - Trafod y dystiolaeth

(15.05-15.20)

## 6 Bil Marchnad Fewnol y DU - dull ar gyfer adrodd

(15.20-15.35)

## 7 Cytundebau rhyngwladol

(15.35-15.50) (Tudalennau 65 - 68)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL

## (MEMORANDWM RHIF 2)

## BIL MASNACH

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29(iii)(a) yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a chaniateir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd, os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

2. Cyflwynwyd y Bil Masnach ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Mawrth 2020. Cwblhaodd y Bil y cam Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 15 Hydref 2020. Mae'r Bil ar gael yn: Dogfennau'r Bil – Bil Masnach 2019–21 – Senedd y DU

### Amcanion Polisi

3. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw darparu parhad i fusnesau, gweithwyr a defnyddwyr ledled y DU a sefydlu'r DU fel gwlad fasnachu fyd-eang annibynnol. Er mwyn cefnogi'r amcanion hyn, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch gweithredu cytundebau masnach rhyngwladol â thrydedd wledydd sydd â chytundebau masnach â'r UE sydd eisoes yn bodoli; sefydlu Awdurdod Rhwymedïau Masnach a rhoi swyddogaethau iddo; ac yn gwneud darpariaeth ynghylch casglu a datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â masnach.

### Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan yr Adran Masnach Ryngwladol.

5. Mae pedair prif swyddogaeth i'r Bil:

- Mae'n rhoi pwerau i wneud rheoliadau i Un o Weinidogion y Goron ac awdurdodau datganoledig i weithredu Cytundeb ar Gaffael y Llywodraeth os bydd y DU yn aelod annibynnol o'r Cytundeb hwnnw ar ôl diwedd y cyfnod pontio;

- Mae'n rhoi pwerau i un o Weinidogion y Goron ac awdurdodau datganoledig i weithredu cytundebau masnach ryngwladol â thrydedd wledydd sydd â chytundebau masnach â'r UE sydd eisoes yn bodoli;

- Mae'n sefydlu Awdurdod Rhwymedïau Masnach i gyflawni fframwaith newydd y DU ar gyfer rhwymedïau masnach;

- Mae'n sefydlu porth rhannu data rhwng Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a chyrff cyhoeddus a phreifat eraill.

6. Mae darpariaethau’r Bill sy’n enwedig o berthnasol i Gymru fel a ganlyn:

- Rhan 1, Cymal 1 – (gweithredu Cytundeb ar Gaffael y Llywodraeth).

- Rhan 1, Cymal 2 – (gweithredu cytundebau masnach rhyngwladol â thrydedd wledydd sydd â chytundebau masnach â'r UE sydd eisoes yn bodoli).

- Rhan 2 – (sefydlu'r Awdurdod Rhwymedïau Masnach) – Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu bod y darpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil sy'n ymwneud â'r Awdurdod Rhwymedïau Masnach yn gwneud darpariaeth at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd nac sy'n ei addasu.  Fodd bynnag, gallai sefydlu Awdurdod Rhwymedïau Masnach gael effaith ar feysydd datganoledig fel amaethyddiaeth a physgodfeydd.

- Rhan 3 – (Casglu a rhannu gwybodaeth am fasnach).

**Darpariaethau yn y Bil mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

7. Gosododd Llywodraeth Cymru femorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar 2 Ebrill 2020, yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd i Senedd y DU ar 19 Mawrth 2020.  Roedd y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwnnw'n cwmpasu Rhan 1, Cymalau 1 i 4 ac Atodlenni 1, 2 a 3 o'r Bil.  Nid oedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau yn Rhannau 2 neu 3 o'r Bil fel y'u cyflwynwyd yn sbarduno Rheol Sefydlog 29.

**Newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

8. Gwnaed y gwelliannau canlynol, sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru, ac sy'n cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, i Ran 3 o'r Bil yn ystod cam Adrodd Tŷ'r Cyffredin.

9. **Mae Rhan 3, Cymal 9** – Cymal 9(1) yn rhoi pŵer i awdurdodau cyhoeddus penodedig ddatgelu gwybodaeth i Un o Weinidogion y Goron at ddibenion hwyluso arfer swyddogaethau Gweinidog y Goron sy'n ymwneud â masnach. Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidog Swyddfa'r Cabinet, cwmni priffyrdd strategol a benodir o dan adran 1 o Ddeddf Seilwaith 2015 ac awdurdod iechyd porthladd a gyfansoddwyd o dan adran 2 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yw'r awdurdodau cyhoeddus penodedig yng nghymal 9(3) a all ddatgelu gwybodaeth i Un o Weinidogion y Goron. Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau penodedig sy'n rhan o’r porth rhannu data hwn yn awdurdodau a gedwir yn ôl.  Fodd bynnag, mae'r diffiniad o awdurdod iechyd porthladd yn cynnwys awdurdodau iechyd porthladdoedd Cymru sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac mae’n ddigon helaeth i alluogi awdurdodau o'r fath i ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â materion nas cedwir yn ôl i Un o Weinidogion y Goron.

10. Mae cymal 9(9) hefyd yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau i Un o Weinidogion y Goron sy'n galluogi diwygio'r rhestr o awdurdodau penodedig yng nghymal 9(3). Gellir arfer y pŵer hwnnw i ychwanegu neu ddileu awdurdodau datganoledig Cymru o'r rhestr.

11. **Rhan 3, Cymal 10** – Mae cymal newydd wedi'i gynnwys a fyddai'n ei gwneud yn drosedd i berson ddatgelu gwybodaeth bersonol y gellid ei chysylltu ag unigolyn, yn groes i'r gofynion yng nghymal 9, mewn rhai sefyllfaoedd penodol. Mae trosedd o'r fath yn cael ei chosbi gan ddirwy a/neu gyfnod o garchar am hyd at gyfnod o ddwy flynedd ar dditiad neu hyd at 12 mis ar gollfarn ddiannod. Gan fod angen ystyried y ddarpariaeth hon ochr yn ochr â chymal 9, credwn fod angen cydsyniad hefyd ar gyfer y ddarpariaeth hon.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil Masnach y DU**

12. Mae angen mecanwaith cyfreithiol ar Lywodraeth y DU i'w galluogi i ofyn am fynediad at wybodaeth a gedwir gan ystod eang awdurdodau cyhoeddus ac i rannu'r wybodaeth honno. Gallai cael mynediad at ystod ehangach o ddata datganoledig a data a gedwir yn ôl wella gallu Llywodraeth y DU i ymateb i faterion yn ymwneud â'r ffin, cynllunio mentrau rheoli traffig a gwella llifoedd masnach.

13. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sail resymegol dros y gwelliannau. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau y gwelir manteision yng Nghymru, rydym wedi ceisio sicrwydd ynghylch y canlynol;

    a) Bydd Llywodraeth y DU yn rhannu unrhyw ddadansoddiadau sy'n berthnasol i gyflawni cyfrifoldebau datganoledig â Gweinidogion Cymru. Mae cymal 9(5) yn berthnasol yn y cyd-destun hwn gan ei fod yn gwneud darpariaeth i Un o Weinidogion y Goron ddatgelu data, gyda chydsyniad yr awdurdod cyhoeddus y cafwyd y data ganddo. Gallai hyn alluogi Un o Weinidogion y Goron i ddatgelu data i Weinidogion Cymru mewn amgylchiadau lle mae'r data'n berthnasol i swyddogaethau datganoledig Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â masnach, megis rheoli traffig o amgylch porthladdoedd allweddol;

    b) Bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn ychwanegu neu dynnu unrhyw awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru o'r porth rhannu data yng nghymal 9.

14. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod wedi cael digon o sicrwydd gan Lywodraeth y DU mewn ymateb i'r ceisiadau hyn.

15. Yn ogystal, gwnaed dau ymrwymiad blwch anfon yn ystod cam Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar 15 Hydref:

> 'Yn gyntaf, bydd y data a rennir o dan Gymal 9 yn cael ei ddefnyddio gan y ganolfan effaith ar y ffin a Swyddfa'r Cabinet i ddatblygu dealltwriaeth

strategol.  Maent wedi ymrwymo i rannu dadansoddiadau strategol sy'n gysylltiedig â llif masnach, lle bydd yn cefnogi'r gwaith o reoli llif drwy'r ffin yn fwy effeithiol.

Deallaf fod swyddogion Swyddfa'r Cabinet wedi bod yn gweithio'n agos gyda chymheiriaid yn y gweinyddiaethau datganoledig i sicrhau y gellir rhannu dadansoddiadau a gwybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â masnachu a rheoli'r ffin i gefnogi swyddogaethau datganoledig.  Enghraifft o'r mathau o wybodaeth y mae'r ganolfan effaith ar y ffin yn bwriadu eu rhannu â phartïon perthnasol yn y gwledydd datganoledig yw patrymau llif drwy borthladdoedd.

Bydd Swyddfa'r Cabinet yn parhau i weithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i sicrhau bod y ganolfan effaith ar y ffin yn darparu manteision strategol i'r gwaith o reoli'r llif drwy borthladdoedd allweddol.

Yn ail, bydd Llywodraeth y DU yn ymrwymo i ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig cyn i unrhyw awdurdodau datganoledig gael eu hychwanegu at y rhestr o awdurdodau penodedig a all rannu data o dan Gymal 9, neu ei ddileu oddi arni.'

16. Credwn fod y sicrwydd a ddarperir yn ddigonol i sicrhau y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cael gafael ar wybodaeth fanylach i gynyddu galluoedd rheoli ffiniau a gwella data llif masnach, er budd Cymru.

17. Ar y sail hon, byddem yn argymell bod y Senedd yn rhoi caniatâd deddfwriaethol.

**Goblygiadau ariannol**

18. Er nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru na'r Senedd yn deillio o'r pwerau o dan y Bil, bydd goblygiadau ariannol sylweddol i Gymru drwy ein perthnasau masnach yn y dyfodol o ran ei effaith economaidd gyffredinol.

**Casgliad**

19. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn ym Mil hwn y DU, gan fod y Bil yn ymdrin â materion datganoledig a materion nad ydynt wedi'u datganoli. O ran cydlyniad, mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai deddfu drwy Fil ledled y DU yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur ar gyfer creu polisi masnach annibynnol ar gyfer y DU yn dilyn y cyfnod pontio.  Efallai y bydd cytundebau masnach yn y dyfodol yn cael effaith fawr ar feysydd datganoledig, felly mae'n bwysig bod buddiannau Cymru yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol yn y Bil Masnach.

**Jeremy Miles AS**

**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**

**Tachwedd 2020**

Eitem 3.2

**Jeremy Miles AS/MS**
**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

9 Tachwedd 2020

Annwyl David,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 27 Hydref. Dywedais wrthych yng nghyfarfod y Pwyllgor wythnos diwethaf ein bod wrthi'n asesu'r Cytundeb Partneriaeth Economaidd Gynhwysfawr rhwng y DU a Siapan (CEPA), gan gynnwys y gwahaniaethau rhyngddo â'r Cytundeb Partneriaeth Economaidd rhwng yr UE a Siapan. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y dadansoddiad hwn yn un cadarn, rwy'n cynnig ein bod yn darparu'r wybodaeth y gofynnoch chi amdani erbyn 16 Tachwedd. Dim ond yn ddiweddar iawn y daeth y fersiwn derfynol o destun CEPA i law'r swyddogion (yr un pryd ag adrannau eraill y Llywodraeth) ac o safbwynt y meysydd sydd wedi'u dargadw, dyma'r tro cyntaf i ni weld y testun.

Gan ddisgwyl ymlaen at rannu'n hasesiad â chi cyn hir.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg**
**Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/EM/3691/20

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN
SeneddMADY@senedd.cymru

9 Tachwedd 2020

Annwyl Dai,

Ar 23 Hydref, fe wnaethoch ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â gwaith craffu'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar y Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar gyfer Labelu,Cyfansoddiad a Safonau Cysylltiedig â Maeth. Mae'r polisi hwn bellach yn fy maes cyfrifoldeb i, ac felly gofynnwyd imi ymateb.

Yn eich llythyr, rydych yn gofyn nifer o gwestiynau y mae angen atebion iddynt cyn i'r pwyllgor graffu'n fanwl ar y fframwaith. Gweler yr ymateb canlynol.

Beth yw'r fframwaith

1. Beth yw ffurf y fframwaith, h.y. ai Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, concordat, fframwaith deddfwriaethol ynteu cyfuniad o ddogfennau?

   Mae'r Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar gyfer Labelu, Cyfansoddiad a Safonau Cysylltiedig â Maeth (NLCS) (y fframwaith) ar ffurf fframwaith a choncordat anneddfwriaethol.

2. Ar ba sail y dewiswyd ffurf y fframwaith?

   Mae defnyddio dull anneddfwriaethol yn caniatáu'r hyblygrwydd mwyaf posibl i addasu'r fframwaith yn ôl yr angen a chynnal elfen o ymddiriedaeth ac ewyllys da rhwng y pedair gweinyddiaeth. Mae'r concordat yn darparu'r sail ar gyfer rheoli a

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

chynnal dull cyffredin o ran ymagwedd a safonau gofynnol, yn ogystal ag o ran cadw golwg a rhannu gwybodaeth.

3. A yw'r holl ddogfennau sy'n berthnasol i'r fframwaith (gan gynnwys dogfennau a fydd yn cael eu defnyddio gan lywodraethau i gymhwyso a dehongli'r fframwaith) wedi'u cyhoeddi?

   Cyhoeddwyd y fframwaith dros dro (a'r concordat wedi'i atodi) ar wefan Llywodraeth y DU https://www.gov.uk/government/publications/nutrition-labelling-composition-and-standards-provisional-common-framework-command-paper

   Gan ei fod yn dal yn debygol o gael ei ddiwygio, nid oes bwriad i'w gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn debygol o newid pan gaiff y ddogfen ei rhoi ar waith yn llawn ar ôl cam 5.

4. A fydd angen deddfwriaeth ychwanegol yn y dyfodol mewn perthynas â'r fframwaith?

   Nid oes angen deddfwriaeth ychwanegol ar gyfer y trefniadau yn y cytundeb hwn. Mae'r fframwaith hwn yn nodi darpariaethau cyffredinol mewn perthynas â'r polisi. Ni fwriedir iddo fod yn gontract y gellir ei orfodi'n gyfreithiol na chreu unrhyw hawliau neu rwymedigaethau y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol.

5. Pa effaith fydd ffurf y fframwaith yn ei chael ar y modd y caiff ei weithredu?

   Mae'r dull anneddfwriaethol yn caniatáu hyblygrwydd a chyfle i adolygu a mireinio pan fo hynny'n briodol a phan fo pob ochr yn cytuno, heb fod angen deddfwriaeth bellach

6. Sut mae'r llywodraethau wedi sicrhau y bydd y fframwaith yn glir ac yn hygyrch i ddinasyddion ac Aelodau?

   Gweler yr ateb i gwestiwn 3.

Yr hyn y mae'r fframwaith yn ei wneud

7. Pam mae angen fframwaith ar gyfer y maes polisi hwn?

   Ar hyn o bryd, gellir marchnata a gwerthu nwyddau bwyd-amaeth ledled y DU ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau presennol yr UE. Yn awr ac wrth edrych tua'r dyfodol mae'r holl bartïon i'r fframwaith yn cytuno ei bod yn fuddiol sefydlu lefel o weithio cyffredin ar draws polisïau Labelu, Cyfansoddiad a Safonau Cysylltiedig â Maeth, yn enwedig i'r busnesau hynny sy'n gweithredu ar draws ffiniau'r DU. Felly, mae'r cytundebau fel y'u nodir yn y fframwaith yn darparu ar gyfer anelu bob amser at gael cydweithio agos a chysondeb o ran dull gweithredu ar draws y pedair gwlad, gan gydnabod y dylai'r cyfle i ddilyn trywydd gwahanol barhau os cytunir bod hynny'n angenrheidiol ac yn briodol.

8. Cytunodd Cyd-bwyllgor y Gweinidogion yn 2017 ar egwyddorion yn ymwneud â phryd y byddai angen fframweithiau, gan gynnwys galluogi marchnad fewnol y DU i weithredu a sicrhau cydymffurfiaeth ag ymrwymiadau rhyngwladol. Pa rai o'r egwyddorion hyn sy'n berthnasol i'r fframwaith hwn?

Pob un – yn benodol:

- galluogi marchnad fewnol y DU i weithredu, gan gydnabod y gallai fod gwahaniaethau o ran polisi
- sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol
- sicrhau y gall y DU negodi cytundebau masnach a chytuniadau rhyngwladol newydd, ymrwymo iddynt a'u rhoi ar waith
- galluogi rheoli adnoddau cyffredin
- gweinyddu cyfiawnder a rhoi mynediad ato mewn achosion ag elfen drawsffiniol
- sicrhau diogelwch y DU

9. Beth mae cyfraith a pholisi'r UE yn y maes hwn yn ei wneud ar hyn o bryd? A yw'r fframwaith yn dybylgu'r swyddogaeth hon/swyddogaethau hyn yn llawn neu'n rhannol?

Mae deddfwriaeth yr UE ar labelu, cyfansoddiad a safonau sy'n gysylltiedig â maeth, yn cwmpasu'r meysydd canlynol: honiadau ynghylch maeth ac iechyd a wneir ar fwydydd; ychwanegu fitaminau, mwynau a sylweddau penodol eraill at fwydydd; cyfansoddiad a labelu ychwanegion bwyd; cyfansoddiad a labelu bwyd a fwriedir ar gyfer babanod a phlant ifanc, dibenion meddygol arbennig bwyd, ac amnewid deiet yn llwyr ar gyfer rheoli pwysau; a'r datganiad maeth gorfodol (labelu bwyd), gan gynnwys dulliau mynegi a chyflwyno eraill a allai gael eu defnyddio ar ei gyfer. Mae'r fframwaith yn nodi gweithdrefnau a mecanweithiau newydd ar gyfer yr holl feysydd hyn.

10. Beth yw amcanion polisi'r fframwaith?

Mae'r fframwaith hwn yn canolbwyntio ar ddisodli mecanweithiau sy'n ategu swyddogaethau presennol yr UE, sy'n angenrheidiol i gynnal y safonau cyfredol, fel y rhai sy'n ymwneud â'r canlynol: awdurdodi honiadau newydd; diwygio rhestrau a chofrestrau; neu hysbysu am fformiwla fabanod a bwydydd meddygol.

11. Ym mha ffordd y mae'r fframwaith yn newid cymhwysedd gweithredol Llywodraeth Cymru? Sut mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa o dan gyfraith yr UE?

Bydd cyfrifoldebau, pwerau a/neu swyddogaethau a ddelir ar hyn o bryd gan Aelod-wladwriaethau neu gyrff yr UE yn cael eu trosglwyddo i Weinidogion.

12. Ym mha ffordd y mae'r fframwaith yn newid cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd? Sut mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa o dan gyfraith yr UE?

Rheolir y polisi Labelu, Cyfansoddiad a Safonau Cysylltiedig â Maeth gan ddeddfwriaeth gyson sy'n deillio o'r UE (a nodir yn Atodiad II o'r fframwaith). Mae Rheoliadau'r UE yn uniongyrchol gymwysadwy ledled y DU. Dirprwyir y gwaith o orfodi'r Rheoliadau hyn i awdurdodau lleol a darperir y pwerau gorfodi drwy ddeddfwriaeth ddomestig ym mhob un o bedair gwlad y DU. Mae Cyfarwyddebau Cymwysadwy wedi'u rhoi ar waith drwy ddeddfwriaeth ddomestig ym mhob un o bedair gwlad y DU.

13. I ba raddau y bydd modd y fframwaith yn caniatáu gwyro? A fydd hyn yn fwy neu'n llai na'r gallu i wneud hynny o dan gyfraith yr UE?

Mae rhywfaint o hyblygrwydd eisoes ar gyfer gwahaniaethau cyfyngedig yn y maes hwn o dan gyfraith yr UE. Mae'r fframwaith yn caniatáu gwahaniaethau mewn un neu

ragor o'r tiriogaethau, os yw asesiadau risg yn dangos bod hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn amddiffyn defnyddwyr a galluogi'r Farchnad Fewnol i weithredu.

Os cytunir ar argymhelliad cyffredin sy'n cefnogi dilyn trywydd gwahanol o ran polisi, bydd swyddogion yn esbonio’r gwahaniaethau yn y dulliau gweithredu i Weinidogion ac yn darparu rhesymeg gryno sy'n nodi pam ei bod yn briodol dilyn trywydd gwahanol (Atodiad IV Tablau I, II, III). Mae ysgrifenyddiaeth y grŵp polisi ar lefel swyddogion yn paratoi templedi argymhellion cyffredin y gellid eu defnyddio i gofnodi, yn fanwl, yr argymhelliad a'r ffactorau perthnasol gyda'r bwriad o gyflwyno'r ddogfen hon i bob Gweinidog er mwyn sicrhau cysondeb.

14. Os bydd y gallu i wyro’n wahanol i'r gallu i wyro o dan gyfraith yr UE, pam hynny?

    Mae cyfle yn awr i ddilyn trywydd gwahanol os yw asesiadau risg yn dangos bod hynny’n angenrheidiol ac yn gymesur ac y gall sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn ac y gall y Farchnad Fewnol barhau i weithredu. Mae'r dull hwn yn cydnabod y pwerau newydd a drosglwyddwyd i Weinidogion ac yn parchu ac yn adlewyrchu setliadau Datganoli.

15. A fydd y fframwaith yn cael unrhyw effaith ar ddeddfwriaeth a / neu bolisïau presennol Cymru neu ei deddfwriaeth a / neu bolisïau yn y dyfodol?

    Ni ragwelir dim.

16. Beth fydd goblygiadau ariannol y fframwaith?

    Mae costau Pwyllgor Honiadau Maeth ac Iechyd y DU (UKNHCC) hyd yma wedi dod o’r cyllid ymadael - mae'r gost hon yn cael ei hystyried ar hyn o bryd fel rhan o gais diweddaraf yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC); bydd angen ystyried sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu yn y dyfodol.

Sut y datblygwyd y fframwaith

17. Sut aeth y llywodraethau ati i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth baratoi’r fframwaith amlinellol?

    Cynhaliwyd sesiwn ymgysylltu technegol gyda chynrychiolwyr o'r diwydiant bwyd (gan gynnwys cynrychiolaeth o Gymru) a rhoddwyd cyflwyniad yng Ngrŵp Arbenigwyr Busnes BEIS. Cynhaliwyd yr holl ymgysylltu ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

18. Fel rhan o’r broses honno, sut aeth Llywodraeth Cymru ei hun ati i ymgysylltu â rhanddeiliaid?

    Dosbarthwyd gwahoddiad gan swyddogion Llywodraeth Cymru i'r sesiwn ymgysylltu hysbysiad o sesiwn y Grŵp Arbenigwyr Busnes.
    An invitation was circulated by Welsh Government officials to the engagement session a notification of the Business Expert Group session.

19. Sut mae’r fframwaith yn adlewyrchu ymatebion rhanddeiliaid, gan gynnwys rhanddeiliaid yng Nghymru?

Roedd rhanddeiliaid (gan gynnwys y rhai o Gymru) yn cefnogi diben ac egwyddorion y fframwaith ond mynegwyd awydd am lefelau uwch o gydlynu rhwng adrannau ar fframweithiau bwyd; cyfathrebu â rhanddeiliaid; prosesau ymgysylltu clir ar ôl ymadael, a mwy o ymgynghori.

Dywedodd rhanddeiliaid eu bod hefyd yn teimlo'n dawel eu meddwl gan y cynigion ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd a mecanweithiau datrys anghydfodau. Cafodd y fframwaith ei fireinio o ganlyniad i'r adborth a gafwyd.

20. A oes unrhyw drafodaethau sy'n mynd rhagddynt mewn perthynas ag elfennau o'r fframwaith?

    Mae cyfeiriad at rwymedigaethau rhyngwladol yn dal i gael ei ystyried. Caiff adrannau perthnasol eu hystyried ymhellach ac ychwanegir atynt cyn i'r fframwaith gael ei gyflwyno i Gyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd) i'w gymeradwyo a'i weithredu'n derfynol.

Rhyngweithio â chyfraith a pholisi domestig

21. Sut mae'r fframwaith yn rhyngweithio â deddfwriaeth ddomestig bresennol?

    Rheolir y polisi Labelu, Cyfansoddiad a Safonau Cysylltiedig â Maeth gan ddeddfwriaeth gyson sy'n deillio o'r UE. Mae Rheoliadau'r UE yn uniongyrchol gymwysadwy ledled y DU. Dirprwyir y gwaith o orfodi'r Rheoliadau hyn i awdurdodau lleol a darperir y pwerau gorfodi drwy ddeddfwriaeth ddomestig ym mhob un o bedair gwlad y DU. Mae Cyfarwyddebau Cymwysadwy wedi'u rhoi ar waith drwy ddeddfwriaeth ddomestig ym mhob un o bedair gwlad y DU. Er bod y polisi Labelu, Cyfansoddiad a Safonau Cysylltiedig â Maeth yn faes cymhwysedd datganoledig, mae negodi cytundebau masnach rhyngwladol yn dal yn bŵer sydd wedi'i gadw'n ôl. Mae hyn yn creu maes o fuddiannau sy'n gorgyffwrdd lle y gallai negodi cytundebau masnach orgyffwrdd ag agweddau ar feysydd polisi datganoledig

22. Sut mae'r fframwaith yn rhyngweithio â chyfraith yr UE a ddargedwir yn y maes polisi hwn?

    Mae'n nodi mecanweithiau a phrosesau newydd a roddir ar waith i ddisodli'r rhai a arferai gael eu pennu a'u rhoi ar waith gan yr UE.

23. A yw'r fframwaith yn rhyngweithio ag unrhyw gytundebau rhynglywodraethol sydd ar waith ar hyn o bryd?

    Cydnabyddir bod cysylltiadau ag adrannau eraill y llywodraeth, megis yr Asiantaeth Safonau Bwyd a DEFRA, a bod angen llywodraethiant yn y dyfodol ynghylch gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag addasiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir. Mae trefniadau yn y fframwaith hwn yn cysylltu â/yn adlewyrchu fframweithiau perthnasol eraill sy'n ymwneud â labelu a chyfansoddiad bwyd yn gyffredinol, er enghraifft y rhai sy'n cwmpasu: Rheoliad (EU) Rhif. 1169/2011 ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr; Rheoliad (EC) Rhif. 396/2005; Rheoliad (EU) Rhif. 2015/228 ar lefelau gweddillion uchaf plaladdwyr mewn/ar fwyd a phorthiant sy'n dod o blanhigion ac anifeiliaid.

Rhyngweithio â chyfraith ryngwladol a chytundebau rhyngwladol

24. A yw'r fframwaith yn rhyngweithio ag unrhyw rwymedigaethau neu gytundebau rhyngwladol?

    Nid oes unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol sy'n bodoli eisoes sy'n berthnasol i’r polisi Labelu, Cyfansoddiad a Safonau Cysylltiedig â Maeth.  Os bydd unrhyw un yn codi yn y dyfodol, caiff y fframwaith ei adolygu.

25. Os felly, a yw'r fframwaith yn 'sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol’? Sut?

    Mae sgyrsiau ar sut i fynd i'r afael â'r mater polisi trawsbynciol hwn yn parhau.

26. Sut y bydd y fframwaith yn rhyngweithio ag unrhyw drafodaethau yn y DU yn y dyfodol ar fasnach neu feysydd eraill neu sut y bydd y trafodaethau hynny’n effeithio arno?

    Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Cabinet yn parhau i drafod adrannau penodol mewn perthynas â'r polisi a'r cysylltiadau rhyngwladol.

27. Sut y bydd y fframwaith yn rhyngweithio â Phrotocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon?

    Mae swyddogion ym mhob un o'r pedair gweinyddiaeth yn cydnabod y bydd angen ailarfarnu cytundebau fframwaith yn ystod Camau 4 a 5 o ganlyniad i ddatblygiadau o ran unrhyw gytundeb a negodir gyda'r UE ar faterion trawsbynciol fel Partneriaeth yn y Dyfodol, y Farchnad Fewnol a Phrotocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon. Bydd Protocol Gogledd Iwerddon yn parhau i gael ei ystyried yng nghamau datblygu’r fframwaith yn y dyfodol, unwaith y bydd yr effeithiau/newidiadau sydd eu hangen yn hysbys, ac unwaith y bydd penderfyniadau wedi'u gwneud ar lefel adrannol ar y gwaith sydd ei angen i sicrhau y gellir gorfodi'r Protocol, os bydd angen. Bydd angen penderfyniadau ar lefel uwch er mwyn gweld sut mae'r Protocol yn cysylltu â’r fframwaith ac a oes ganddo oblygiadau iddo.

28. Beth fyddai'n digwydd pe bai'r fframwaith yn gwrthdaro â chytundeb rhyngwladol?

    Mae sgyrsiau ar sut i fynd i'r afael â'r mater polisi trawsbynciol hwn yn mynd rhagddynt

29. Os bydd angen diwygio'r fframwaith i adlewyrchu cytundeb rhyngwladol newydd, pa broses ddiwygio fyddai’n cael ei defnyddio?

    Fel rhan o'r broses adolygu arferol (ceir rhagor o fanylion mewn cwestiynau diweddarach).

30. Sut y bydd y Senedd yn gallu cyfrannu at y broses ddiwygio honno?

    Ar hyn o bryd nid oes ymrwymiad yn y fframwaith i wahodd y Senedd (na seneddau cyfatebol y DU) i ystyried na chyfrannu at y broses adolygu a diwygio.  Bydd swyddogion yn ystyried y gofyniad ychwanegol hwn wrth i’r sefyllfa fynd rhagddi.

Rhyngweithio â Bil y Farchnad Fewnol

31. Pa effaith fyddai Bil Masnach Mewnol y DU (h.y. corffori egwyddorion cydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu yn y gyfraith) yn ei chael ar y fframwaith?

    Mae gan benderfyniadau a wneir ar y polisi Labelu, Cyfansoddiad a Safonau Cysylltiedig â Maeth yn y fframwaith hwn y potensial i effeithio ar y Farchnad Fewnol i'r

graddau y maent yn ymwneud â labelu, cyfansoddiad a safonau bwydydd a werthir ledled y DU. Mae'r fframwaith hwn felly'n cydnabod yr egwyddorion a nodir yng Nghyd-hysbysiad Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) Hydref 2017 (Rhan B Adran 2.5/Rhan C Adran 1). Bydd argymhellion cyffredin y cytunwyd arnynt gan y grŵp polisi ar lefel swyddogion hefyd yn ystyried yr effeithiau posibl ar weithrediad y Farchnad Fewnol (Rhan C Adran 5.4) yn ystod y broses rheoli risg. Mae'r fframwaith, a'r prosesau llywodraethu a gynhwysir yn y fframwaith Labelu, Cyfansoddiad a Safonau Cysylltiedig â Maeth yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer gwahaniaethau o ran polisi gan ystyried yr effaith ar y Farchnad Fewnol yr un pryd (Rhan C Adran 6).

Rhaid i'r fframwaith barhau i gydnabod y potensial ar gyfer gwahaniaethau. Ym mhob achos, caiff cynigion polisi eu hystyried ar sail pedair gwlad drwy'r grŵp polisi pedair gwlad a sefydlir drwy'r fframwaith, gan ystyried yr effaith nid yn unig ar bob gwlad unigol, ond ar farchnad fewnol y DU yn ogystal. Pe bai gwahaniaethau rhwng gwledydd y Deyrnas Unedig [Prydain Fawr yn amodol ar Brotocol Gogledd Iwerddon] byddai Bil Marchnad Fewnol presennol y DU yn gwneud darpariaeth a fyddai'n golygu bod nwyddau a wneir ac a labelir yn unrhyw un o wledydd y DU yn cael eu cydnabod a'u gwerthu yn unrhyw un o'r lleill [Prydain Fawr yn amodol ar Brotocol Gogledd Iwerddon] heb wahaniaethu.

Gweithredu

32. Beth fydd rolau'r gwahanol lywodraethau yn y broses o weithredu'r fframwaith?

Bydd gan bob Llywodraeth ledled y DU rôl gyfartal o ran cyflawni'r fframwaith. Bydd timau polisi yn cydweithio drwy Grŵp Polisi newydd ar Labelu, Cyfansoddiad a Safonau Cysylltiedig â Maeth (gweler Rhan D Adran 1) i ddatblygu dulliau cyffredin o wneud newidiadau i'r polisi sydd fewn cwmpas y fframwaith hwn a chytuno ar argymhellion cyffredin. Lle na ellir dod i gonsensws ar lefel swyddogion ynghylch argymhelliad cyffredin (p'un a yw hynny'n gytundeb i ddull gweithredu ar gyfer y DU gyfan neu i wananiaethu) byddai'r broses datrys anghydfodau (gweler Rhan D Adran 6) yn cael ei sbarduno a'r Gweinidog yn cymryd rhan yn ôl yr angen.

33. A fydd unrhyw gyrff eraill, cyhoeddus neu fel arall, yn cymryd rhan yn y broses o weithredu'r fframwaith?

Mae'r fframwaith yn darparu i drydydd partïon/arbenigwyr gymryd rhan yng nghyfarfodydd rheolaidd grŵp polisi'r DU. Gallai hyn gynnwys cyrff o'r maes diwydiant neu gyrff sy'n cynrychioli'r cyhoedd lle bo angen.

Llywodraethu a datrys anghydfod

34. Beth fydd rôl y llywodraethau yn y gwaith o oruchwylio a llywodraethu'r fframwaith?

Nodir strwythur llywodraethu a datrys anghydfodau manwl yn Atodiad IV i'r fframwaith.

35. Beth fydd rôl unrhyw gyrff eraill yn y gwaith o oruchwylio a llywodraethu'r fframwaith?

Ar hyn o bryd nid oes ymrwymiad yn y fframwaith i wahodd cyrff eraill i gymryd rhan yn y gwaith o oruchwylio a llywodraethu'r fframwaith. Bydd swyddogion yn ystyried y gofyniad ychwanegol hwn wrth i'r sefyllfa fynd rhagddi.

36. Beth fydd y system ar gyfer datrys anghydfod? Sut mae hyn yn cymharu a systemau datrys anghydfod fframweithiau eraill?

Darperir mecanwaith datrys anghydfodau cam wrth gam yn y fframwaith sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau clir i swyddogion a Gweinidogion. Mae'n anodd asesu sut mae'r fframwaith hwn yn cymharu ag eraill o ystyried nad yw'r rhan fwyaf ohonynt ar yr un cam datblygu.

37. A ydych chi'n ystyried bod y system datrys anghydfod yn ddigon cadarn i ateb y diben arfaethedig?

Ydym, mae'r fframwaith yn nodi'n glir y prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd, osgoi anghydfodau a datrys anghydfodau. Mae'n adlewyrchu canllawiau a ddarparwyd ac mae'n unol â nhw, ac fe'i defnyddiwyd gan feysydd polisi eraill fel esiampl i'w dilyn.

Adolygu a diwygio

38. Pa drefniadau fydd ar waith i adolygu a diwygio'r fframwaith yn rheolaidd?

Rydym wedi ymrwymo i drefnu bod swyddogion Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn cyfarfod, drwy'r Grŵp Polisi ar Labelu, Cyfansoddiad a Safonau Cysylltiedig â Maeth a sefydlwyd drwy'r trefniadau a nodir yn y fframwaith, i adolygu'r fframwaith ar yr adegau a nodwyd. Ar bob un o'r adegau hyn bydd asesiad ôl-weithredol, gan ddefnyddio gwybodaeth a gesglir drwy adroddiadau chwarterol, i weld a yw'n cyflawni ei nodau datganedig ac yn helpu'r prosesau perthnasol sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith i gael eu gweinyddu'n effeithlon; neu a oes angen ei fireinio/ei adolygu ymhellach.

39. Sut y bydd modd mesur i ba raddau y bydd egwyddorion y fframwaith yn parhau i gael eu dilyn?

Bydd y modd y glynir wrth egwyddorion y fframwaeith yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad cyfnodol o'r fframwaith a'r concordat y bydd holl bartïon y DU yn rhan ohono.

40. Sut y bydd y Senedd yn gallu cyfrannu at y gwaith o adolygu a diwygio'r fframwaith?

Bydd y Gweinidog yn cael adroddiad blynyddol. Ar hyn o bryd nid oes ymrwymiad yn y fframwaith i wahodd y Senedd (neu seneddau cyfatebol y DU) i ystyried na chyfrannu at y broses adolygu a diwygio. Bydd swyddogion yn ystyried y gofyniad ychwanegol hwn wrth i'r sefyllfa fynd rhagddi.

41. Sut y bydd rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at y gwaith o adolygu a diwygio'r fframwaith?

Ar hyn o bryd nid oes ymrwymiad yn y fframwaith i gynnwys rhanddeiliaid yn y broses adolygu a diwygio. Bydd swyddogion yn ystyried y gofyniad ychwanegol hwn wrth i'r sefyllfa fynd rhagddi.

42. Beth fydd y broses o drafod a chytuno ar unrhyw newidiadau i’r fframwaith yn y dyfodol?

    Bydd swyddogion ledled y DU yn adolygu'r fframwaith a'r concordat yn ffurfiol bob chwe mis, bob blwyddyn a bob tair blynedd ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith; ac wedi hynny bob tair blynedd o ddiwedd y cyfnod pontio.

43. Os bydd newidiadau yn y dyfodol, sut y bydd y Senedd yn cael gwybod amdanynt? Pa weithdrefnau craffu a gaiff eu defnyddio mewn perthynas â’r newidiadau?

    Bydd y Gweinidog yn cael adroddiad blynyddol. Ar hyn o bryd nid oes ymrwymiad yn y fframwaith i wahodd y Senedd (neu seneddau cyfatebol y DU) i ystyried y broses adolygu a diwygio na chyfrannu ati. Bydd swyddogion yn ystyried y gofyniad ychwanegol hwn wrth i’r sefyllfa fynd rhagddi.

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth a ddarperir yn rhoi'r eglurder sydd ei hangen ar y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol i’w alluogi i graffu ar y fframwaith.

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg
Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon